



**CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL**

**DYLAN J. WILLIAMS** BA (Hons), MSc, MA, M.R.T.P.I.  
Pennaeth Gwasanaeth – Rheoleiddio a Datblygu Economaidd  
Head of Service – Regulation and Economic Development

CYNGOR SIR YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL  
Canolfan Fusnes Môn • Anglesey Business Centre  
Parc Busnes Bryn Cefni • Bryn Cefni Business Park  
LLANGFNI  
Ynys Môn • Isle of Anglesey  
LL77 7XA

ffôn / tel: (01248) 752499  
ffacs / fax: (01248) 752192

Gofynnwch am / Please ask for: Dylan Williams  
E-bost / Email: DylanWilliams@ynysmon.gov.uk  
Ein Cyf / Our Ref:  
Eich Cyf / Your Ref:

Dyddiad / Date: 15<sup>fed</sup> Mehefin 2018

Annwyl Ms Sully,

**Ynghylch: Deddf Cynllunio 2008 – Adran 55**  
**Cais gan Pŵer Niwclear Horizon am Orchymyn Cydsyniad Datblygu ar gyfer Gorsaf**  
**Bŵer Niwclear Wylfa Newydd**  
**Cais ynghylch Digonolrwydd yr Ymgynghoriad**

Cyfeirnod yr Arolygiaeth Gynllunio: EN010007

Diolch am eich llythyr dyddiedig 04/06/2018 yn gwahodd Cyngor Sir Ynys Môn (y "Cyngor Sir") i gyflwyno sylwadau ynghylch cydymffurfiad yr ymgeisydd ("Horizon") ag A.42, A.47 ac A.48 o Ddeddf Cynllunio 2008 ("y Ddeddf").

Mae'r llythyr yma (ynghyd â'r atodiadau a nodir isod) yn ffurfio ymateb y Cyngor Sir i Ddigonolrwydd yr Ymgynghoriad yn unol ag adran 55(b) o'r Ddeddf.

**Atodiad A:** Cronoleg o Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio yr Ymgeisydd;  
**Atodiad B:** Ymatebion Cyngor Sir Ynys Môn i Ddatganiadau o Ymgynghori Cymunedol Horizon;  
**Atodiad C:** Aseiad o Gydydffurfiad yr Ymgeisydd â'i Ddatganiad o Ymgynghori Cymunedol ei hun.

Sylwch fod yr ymateb yma'n asesu methodoleg, dull gweithredu a gweithrediad yr ymgeisydd o'i ymgynghoriad cyn ymgeisio a chaiff ei gyflwyno i helpu'r Ysgrifennydd Gwladol i benderfynu a ddylid derbyn y cais ai peidio.

### **1. Cydymffurfiad ag Adran 27 – Dyletswydd i Ymgynghori â'r Gymuned Leol**

Mae Adran 47 o'r Ddeddf yn nodi'r 'Ddyletswydd i ymgynghori â'r gymuned leol'. Mae'r is-adrannau perthnasol yn mynnu:-

- (1) Rhaid i'r ymgeisydd baratoi datganiad sy'n nodi sut mae'r ymgeisydd yn bwriadu ymgynghori ynghylch y cais arfaethedig â'r bobl sy'n byw yn agos at y tir.

Croeso i chi ddelio gyda'r Cyngor yn Gymraeg neu'n Saesneg. Cewch yr un safon o wasanaeth yn y ddwy iaith.  
You are welcome to deal with the Council in Welsh or English. You will receive the same standard of service in both languages.

- (2) Cyn paratoi'r datganiad, mae'n rhaid i'r ymgeisydd ymgynghori â phob awdurdod lleol sydd o fewn adran 43(1) ynghylch beth fydd yn y datganiad.
- (3) Y dyddiad olaf i'r ymgeisydd dderbyn ymateb awdurdod lleol i ymgynghoriad o dan is-adran (2) ydy diwedd y cyfnod o 28 diwrnod sy'n dechrau gyda'r diwrnod ar ôl y diwrnod pan fydd yr awdurdod lleol yn derbyn y dogfennau ymgynghori.
- (4) Yn is-adran (3) mae'r "dogfennau ymgynghori" yn golygu'r dogfennau sy'n cael eu rhoi i'r awdurdod lleol gan yr ymgeisydd er mwyn ymgynghori â'r awdurdod lleol o dan is-adran (2).
- (5) Wrth baratoi'r datganiad, mae'n rhaid i'r ymgeisydd ystyried unrhyw ymateb i'r ymgynghoriad o dan is-adran (2) a gaiff yr ymgeisydd erbyn y dyddiad cau a nodir gan is-adran (3).
- (6) Ar ôl i'r ymgeisydd baratoi'r datganiad, mae'n rhaid i'r ymgeisydd ei gyhoeddi—
  - (a) mewn papur newydd sy'n cael ei ddsbarthu yn ardal y tir, a
  - (b) mewn ffordd arall fel y rhagnodir.
- (7) Rhaid i'r ymgeisydd ymgynghori yn unol â'r cynigion sydd yn y datganiad.

Roedd Horizon wedi paratoi tri Datganiad o Ymgynghori Cymunedol (gweler y gronoleg yn **Atodiad A** i gael manylion) a oedd yn amlinellu sut roedden nhw'n bwriadu ymgynghori ynghylch y cais arfaethedig â'r bobl sy'n byw wrth ymyl y datblygiad arfaethedig. Ymgynghorwyd â Chyngor Sir Ynys Môn ac fe ymatebodd ym mhob achos (**Atodiad B**). Cafodd hyn ei wneud o fewn y cyfnod penodol gan fodloni'r Cyngor Sir bod gofynion is-adrannau (1), (2), (3) a (4) wedi cael eu cyflawni'n ddigonol.

Mewn perthynas ag is-adran (5), ystyriodd Horizon ymateb y Cyngor ac ysgrifennodd yn ôl i gadarnhau'r newidiadau a oedd wedi cael eu gwneud mewn ymateb uniongyrchol i sylwadau'r Cyngor. Er bod gan Gyngor Sir Ynys Môn bryderon ynghylch hyd a chwmpas ymgynghoriad PAC3 (fel yr amlinellir yn **Atodiad C**), mae'r Cyngor yn fodlon bod Horizon wedi cydymffurfio ag is-adran (5), ac roedd sylwadau a godwyd wedi cael eu hystyried yn briodol wrth ddatblygu'r Datganiad arfaethedig.

Yn unol ag is-adran (6), cyhoeddodd Horizon Ddatganiad o Ymgynghori Cymunedol mewn nifer o bapurau newydd lleol yn ogystal â'i hysbysebu drwy ddulliau eraill fel gwefannau, cyfryngau cymdeithasol ac ati. O'r herwydd, mae'r Cyngor Sir yn fodlon bod Horizon wedi cyflawni ei ddyletswydd i gyhoeddi'r Datganiad o Ymgynghori Cymunedol yn ddigonol.

Wrth ystyried y newidiadau sylweddol i gynigion y prosiect rhwng PAC2 a PAC3 (fel sy'n cael ei gydnabod gan Horizon yn fersiwn mis Mai 2017 o'r Datganiad o Ymgynghori Cymunedol<sup>1</sup>), roedd y Cyngor Sir wedi codi nifer o bryderon mewn ymateb i'r Datganiad hwnnw o Ymgynghori Cymunedol (**Atodiad B**). Er enghraifft, roedd y newid i'w Strategaeth Llety Gweithwyr Adeiladu wedi arwain at gynnydd o ddarparu llety i 500 o 'weithwyr hanfodol' ar y safle i ddarparu llety i hyd at 4,000 o weithwyr adeiladu ar y safle mewn campws dros dro a fyddai'n cael ei adeiladu'n arbennig. Mae hwn yn newid mawr i'r prosiect, sy'n newid sylweddol i'r dull gweithredu ar gyfer darparu llety i weithwyr adeiladu ac, felly, yr effeithiau ar gymunedau lleol yn ystod y cyfnod adeiladu. Mae'r Cyngor Sir yn credu bod angen ymgynghoriad manylach ynghylch y newid hwn na'r 30 diwrnod a ddarparwyd. Ar ben hynny, nid oedd dim manylion na lluniadau technegol ar gyfer campws y safle yn PAC3 a oedd yn golygu na allai'r cyhoedd ddarparu sylwadau ar y cynnig yn ystod yr ymgynghoriad er mwyn siapio a dylanwadu ar y datblygiad arfaethedig mewn ffordd ystyrlon. Y cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu fydd y cyfle cyntaf i'r cyhoedd weld y manylion hyn, sy'n anffodus, ond nid yw'n golygu na fyddai modd derbyn y cais.

<sup>1</sup> Paragraff cyflwyno - Datganiad o Ymgynghori Cymunedol Horizon (F.3) Mai 2017 (tudalen 3).

Er gwaethaf hyn, yn unol ag is-adran (7) uchod, roedd Horizon wedi ymgynghori yn unol â'r cynigion yn ei Ddatganiad o Ymgynghori Cymunedol ac, felly, mae Cyngor Sir Ynys Môn yn fodlon bod Horizon wedi cydymffurfio â gofynion cyfreithiol sylfaenol Adran 47 o Ddeddf Cynllunio 2008.

## **2. Cydymffurfiad ag Adran 42 – Dyletswydd i Ymgynghori**

Mae'r adran hon yn mynnu bod yr ymgeisydd yn ymgynghori â'r canlynol ynghylch y cais arfaethedig—

- (a) *unigolion fel y rhagnodir,*
- (b) *pob awdurdod lleol sydd yn adran 43,*
- (c) *Awdurdod Llundain Fwyaf os ydy'r tir yn Llundain Fwyaf, a*
- (d) *pob unigolyn sydd yn un neu ragor o'r categorïau a nodir yn adran 44.*

Ar sail yr wybodaeth sydd yn Adroddiad yr Ymgynghoriad Horizon, mae'r Cyngor o'r farn bod Horizon wedi ymgynghori â'r amrywiol gyrff fel sy'n ofynnol. Felly wrth ystyried cwrpas yr ymgynghoriad, roedd y Cyngor Sir o'r farn bod hepgor manylion, cynlluniau a mesurau lliniaru o PAC2 ac, yn enwedig, PAC3, wedi ei gwneud hi'n anodd i'r Cyngor ymateb mor llawn ac mor ystyrlon ag y byddai wedi dymuno ei wneud. Fodd bynnag, ers hynny mae Horizon a'r Cyngor Sir wedi bod yn cynnal deialog ynghylch hyn ac mae rhagor o fanylion wedi cael eu rhannu â'r Cyngor Sir sydd wedi ei roi mewn sefyllfa well i ddeall a chyflwyno sylwadau ar y cynigion. Yn benodol, mae'r dull gweithredu o ran y mesurau lliniaru wedi datblygu ac mae trafodaethau ynghylch cynlluniau a strategaethau wedi symud ymlaen mewn ffordd ystyrlon. Gyda hynny mewn golwg, mae'r Cyngor Sir yn credu bod Horizon wedi cyflawni ei ddyletswydd i ymgynghori o dan Adran 42.

## **3. Cydymffurfiad ag Adran 48 – Dyletswydd i Roi Cyhoeddusrwydd**


Mae Adran 48 y Ddeddf yn gosod Dyletswydd i Roi Cyhoeddusrwydd mewn ffordd a ragnodir.

Mae Adroddiad yr Ymgynghoriad Horizon yn rhoi manylion ynghylch sut mae wedi cydymffurfio ag Adran 48. Cafodd copi o'r hysbysiad Adran 48 ei hysbysebu a oedd yn rhoi gwybod am ei fwriad i gyflwyno cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu. Cafodd hwn ei roi mewn nifer o bapurau newydd am ddwy wythnos ar ôl ei gilydd. Roedd yr hysbysiad yn y wasg hefyd yn rhoi'r dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion. Gan ystyried yr uchod, mae'r Cyngor Sir yn fodlon bod Horizon wedi cyflawni ei ddyletswydd i roi cyhoeddusrwydd o dan Adran 48.

### **Casgliad**

Er bod y Cyngor Sir yn credu bod yr ymgynghoriad 30 diwrnod ar gyfer PAC3 yn llai na'r hyn y dylid fod wedi ei gael yn nelfrydol ar gyfer ymgynghoriad, mae Cyngor Sir Ynys Môn o'r farn bod Horizon wedi ymgynghori'n ddigonol yn unol â darpariaethau adrannau 47, 42 a 48 o'r Ddeddf.

**Yn gywir**



**DYLAN J. WILLIAMS**

Pennaeth Gwasanaeth – Rheoleiddio a Datblygu Economaidd  
Head of Service - Regulation and Economic Development

Croeso i chi ddelio gyda'r Cyngor yn Gymraeg neu'n Saesneg. Cewch yr un safon o wasanaeth yn y ddwy iaith.  
You are welcome to deal with the Council in Welsh or English. You will receive the same standard of service in both languages.

## **Atodiad A: Cronoleg o Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio yr Ymgeisydd**

### Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam 1 (PAC 1), Medi – Rhagfyr 2014.

- Cyngor Sir Ynys Môn yn cael Datganiad o Ymgynghori Cymunedol (F.1) gan Horizon ar 08/07/2014 (a 47).
- Cyngor Sir Ynys Môn yn ymateb yn ffurfiol i'r Datganiad o Ymgynghori Cymunedol 19/08/2014 (a 47).
- Horizon yn cyflwyno'r Datganiad o Ymgynghori Cymunedol i'r Cyngor Llawn 02/09/2014.
- Horizon yn cyhoeddi ei Ddatganiad o Ymgynghori Cymunedol terfynol (F.1) 15fed Medi 2014 (a 48).
- Dechrau PAC1 ar 29ain Medi 2014 (10 wythnos) (a 42).
- Cyngor Sir Ynys Môn yn ymateb yn ffurfiol i PAC1 5ed Rhagfyr 2014 (Cyngor Llawn 4ydd Rhag 14) (a 42).

### Ymgynghoriad 'Diweddariad ar y Prosiect' Anffurfiol Ionawr - Mawrth 2016

- Cyngor Sir Ynys Môn yn cael Datganiad o Ymgynghori Cymunedol diwygiedig (F.2) 23ain Rhagfyr 2015 (a 47).
- Horizon yn cynnal Sesiwn Briffio Aelodau 8fed Ionawr (i amlinellu'r newidiadau).
- Cyngor Sir Ynys Môn yn ymateb yn ffurfiol i'r Datganiad o Ymgynghori Cymunedol diwygiedig 14eg Ionawr 2016 (a 47)
- Horizon yn cyhoeddi ei Ddatganiad o Ymgynghori Cymunedol terfynol (F.2) 25ain Ionawr 2016 (a 48)
- Dechrau'r Ymgynghoriad Diweddariad ar y Prosiect 'Anffurfiol' 25ain Ionawr 2016.
- Cyngor Sir Ynys Môn yn ymateb i Ymgynghoriad Anffurfiol mis Ionawr 24ain Mawrth 2016.

### Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam 2 (PAC 2), Awst – Hydref 2016.

- Nid oedd dim Datganiad o Ymgynghori Cymunedol cyn PAC2 – cynhaliwyd PAC2 ar sail y Datganiad o Ymgynghori Cymunedol (F.2) a ddefnyddiwyd ar gyfer ymgynghoriad mis Ionawr 2016.
- Ymgynghoriad PAC2 yn dechrau 31ain Awst 2016 (tan 21ain Hyd 2016) (a 42).
- Cyngor Sir Ynys Môn yn ymateb i ymgynghoriad PAC2 ar 25/10/2016 (a 42).

### Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam 3 (PAC 3), Mai/Mehefin 2017.

- Horizon yn ymgynghori â Chyngor Sir Ynys Môn ynghylch Datganiad o Ymgynghori Cymunedol (F.3) diwygiedig, ar 13eg Mawrth 2017 (a 47).
- Cyngor Sir Ynys Môn yn ymateb i'r Datganiad o Ymgynghori Cymunedol diwygiedig 10fed Ebrill 2017 (a 47).
- Horizon yn cyhoeddi Datganiad o Ymgynghori Cymunedol (F.3) wedi'i ddiweddarau ar 26ain Ebrill 2017 (ar gael ar-lein ac mewn llyfrgelloedd o 4ydd Mai 2017) (a 48).

- Horizon yn ymateb i Lythyr Datganiad o Ymgynghori Cymunedol Cyngor Sir Ynys Môn 17eg Mai 2017 (gyda'r Datganiad o Ymgynghori Cymunedol Terfynol).
- Cyngor Sir Ynys Môn yn ymateb i lythyr Horizon 9fed Mehefin 2017.
- Cynnal ymgynghoriad PAC3 24ain Mai 2017 tan 22ain Mehefin 2017 (a 42).
- Cyngor Sir Ynys Môn yn ymateb i ymgynghoriad PAC3 10fed Gorffennaf 2017 (a.42).

**Atodiad B: Ymatebion Cyngor Sir Ynys Môn i Ddatganiadau o Ymgynghori Cymunedol Horizon**

a) Ymateb Cyngor Sir Ynys Môn i'r Datganiad o Ymgynghori Cymunedol dyddiedig  
19 Awst 2014

b) Ymateb Cyngor Sir Ynys Môn i'r Datganiad o Ymgynghori Cymunedol dyddiedig  
10 Ebrill 2017

c) Ymateb Pŵer Niwclear Horizon i lythyr Cyngor Sir Ynys Môn dyddiedig 10 Ebrill  
2017

d) Llythyr Cyngor Sir Ynys Môn ynghylch y Datganiad o Ymgynghori Cymunedol  
dyddiedig 09 Mehefin 2017

## Atodiad C: Asesiad o Gydfymffuriad yr Ymgeisydd â'i Ddatganiad o Ymgynghori Cymunedol ei hun

Mae'r tabl isod yn asesu a ydy Pŵer Niwclear Horizon wedi cydfymffurfio â'r fethodoleg ymgynghori a amlinellwyd yn ei Ddatganiad o Ymgynghori Cymunedol. Mae'r asesiad hwn wedi cyfrannu at ymateb Cyngor Sir Ynys Môn i'r cwestiwn a ydy Horizon wedi cydfymffurfio ag A.42, A.47 ac A.48 o Ddeddf Cynllunio 2008.

Cyf	Adran	Datganiad Horizon	Sylw Cyngor Sir Ynys Môn	Oedd Horizon wedi cydfymffurfio â'i Ddatganiad o Ymgynghori Cymunedol?
1	Tudalen 7 – <b>pryd a ble</b> byddwn ni'n ymgynghori ynghylch Prosiect Wylfa Newydd?	<p>Rydyn ni'n ymgynghori ynghylch newidiadau arfaethedig i'r Prosiect o ganlyniad i barhau i ddatblygu'r dyluniad, newidiadau yn y gyfraith ac mewn ymateb i'r ymatebion i'r ymgynghoriadau blaenorol. Dyma'r newidiadau rydyn ni'n ymgynghori yn eu cylch:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• newidiadau i'n strategaeth llety gweithwyr adeiladu arfaethedig;</li> <li>• newidiadau canlyniadol posibl i nifer y lleoliadau lle bydd angen datblygu llety gweithwyr dros dro;</li> <li>• newidiadau i ddyluniad ac i weithrediad ein safle parcio a theithio arfaethedig yn Dalar Hir a'r ganolfan logisteg ym Mharc Cybi; ac</li> <li>• rydyn ni nawr hefyd yn cynnig y bydd cyfleusterau'r orsaf bŵer oddi ar y safle, y garej offer argyfwng symudol, y ganolfan rheoli argyfwng amgen a'r labordy arolygon amgylcheddol, ar yr un safle a oedd wedi cael ei gynnig ar gyfer y garej offer argyfwng symudol yn Llanfaethlu.</li> </ul>	<p>Fel yr amlinellwyd yn yr ymateb i'r Datganiad o Ymgynghori Cymunedol (llythyr dyddiedig 10<sup>fed</sup> Ebrill 2017), roedd Cyngor Sir Ynys Môn yn deall pam bod angen PAC3. Roedd newidiadau i ddyluniad y prosiect, newidiadau deddfwriaethol (a arweiniodd a newidiadau yn strategaeth cydsynio Horizon) yn ogystal â newidiadau i strategaeth llety gweithwyr adeiladu Horizon; yn golygu bod angen trydydd cam o ymgynghori cyhoeddus.</p> <p>Fodd bynnag, roedd Horizon wedi ymgynghori ynghylch y newidiadau ers PAC2 yn unig ac nid oedd wedi ymgynghori ynghylch y newidiadau hyn yng nghyd-destun y prosiect yn ei gyfanrwydd. Mynegodd Cyngor Sir Ynys Môn bryder gyda'r dull</p>	<p><b>Oedd</b></p> <p>Roedd Horizon wedi ymgynghori ynghylch y newidiadau arfaethedig i'w brosiect fel yr amlinellwyd yn ei Ddatganiad o Ymgynghori Cymunedol.</p> <p>Er y byddai Cyngor Sir Ynys Môn wedi hoffi cael rhagor o fanylion yn yr ymgynghoriad a gweld Horizon yn ail ymgynghori ynghylch y prosiect yn ei gyfanrwydd (hy gan gynnwys yr elfennau newydd), roedd Horizon wedi cydfymffurfio â'i Ddatganiad o Ymgynghori Cymunedol.</p>

Croeso i chi ddelio gyda'r Cyngor yn Gymraeg neu'n Saesneg. Cewch yr un safon o wasanaeth yn y ddwy iaith.  
You are welcome to deal with the Council in Welsh or English. You will receive the same standard of service in both languages.

			<p>gweithredu hwn gan fod Horizon wedi cyflwyno elfennau newydd, a oedd yn newid rhai o effeithiau posibl y prosiect yn sylweddol. Roedd y newidiadau hyn yn cynnwys cynigion nad oedden nhw wedi cael eu hystyried na'u hasesu yn PAC1 na PAC2 (ee campws llety dros dro ar y safle i weithwyr adeiladu a oedd wedi tyfu o 500 o weithwyr hanfodol) a oedd yn golygu bod Cyngor Sir Ynys Môn a'r cyhoedd yn gweld y rhain am y tro cyntaf ac roedd yn rhaid iddyn nhw ystyried, asesu ac ymateb i'r newidiadau mawr hyn cyn pen 30 diwrnod.</p>	
2	Tudalen 7	<p>Byddwn ni'n sicrhau bod yr ymgynghori'n gynhwysol ac yn glir drwy ddarparu gwybodaeth mae modd ei deall yn hawdd, drwy ddefnyddio deunyddiau gweledol pan fydd hynny'n briodol. Bydd hyn yn ennyn sylwadau adeiladol sy'n seiliedig ar wybodaeth ynghylch Prosiect Wylfa Newydd. Bydd y deunyddiau ymgynghori'n egluro elfennau o'r cynigion rydyn ni'n gofyn yn benodol am safbwyntiau'r gymuned leol a rhanddeiliaid lleol yn eu cylch.</p>	<p>Roedd Horizon wedi darparu gwybodaeth a oedd yn glir, yn gynhwysol ac yn hawdd dod o hyd iddi a'i deall. Roedd defnyddio deunyddiau gweledol yn arbennig o effeithiol ac roedd defnyddio delweddau / modelu 3D wedi golygu bod modd i'r cyhoedd weld y cynigion/effeithiau er mwyn iddyn nhw allu cyflwyno sylwadau ystyrlon.</p> <p>Fodd bynnag, nid oedd yr ymgynghoriad yn cynnwys unrhyw luniadau manwl (hy i'w defnyddio gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ac ymgynghoreion</p>	<p><b>Oedd.</b></p> <p>At ddibenion ymgynghoriad cyhoeddus, roedd Horizon wedi darparu gwybodaeth mewn ffordd glir a chynhwysol fel yr amlinellir yn ei Ddatganiad o Ymgynghori Cymunedol.</p>

Croeso i chi ddelio gyda'r Cyngor yn Gymraeg neu'n Saesneg. Cewch yr un safon o wasanaeth yn y ddwy iaith.  
You are welcome to deal with the Council in Welsh or English. You will receive the same standard of service in both languages.



			statudol eraill) er mwyn asesu'r cynigion yn fanylach. Er enghraifft, nid oedd dim lluniadau na chynlluniau manwl o'r llety i weithwyr ar y safle. Nid oedd Cyngor Sir Ynys Môn na rhanddeiliaid allweddol eraill felly wedi gallu darparu unrhyw sylwadau ffurfiol ynghylch manylion y cynnig hwn cyn cyflwyno'r cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu.	
3	Tudalen 7	Byddwn yn cyhoeddi manylion dyddiadau a lleoliadau'r ymgynghoriad a lle mae modd adolygu dogfennau ar ein gwefan <a href="http://www.horizonnuclearpower.com/ymgyngghoriad">www.horizonnuclearpower.com/ymgyngghoriad</a> ac mewn hysbysebion mewn papurau newydd lleol tua phedair wythnos ymlaen llaw (gan ddibynnu ar ddyddiadau cyhoeddi'r papurau newydd lleol).	Roedd Horizon wedi cyhoeddi manylion dyddiadau a lleoliadau'r ymgynghoriad a lle roedd modd gweld y dogfennau yn y papur newydd lleol o leiaf 4 wythnos cyn yr ymgynghoriad.  Roedd Horizon hefyd wedi cyhoeddi'r wybodaeth hon ar ei wefan, drwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol a chyfryngau eraill (fel radio lleol Môn FM) a oedd yn sicrhau llawer o gyhoeddusrwydd i bob un o'r tri cham ymgynghori.	<b>Oedd.</b>  Roedd Horizon wedi cydymffurfio â'i Ddatganiad o Ymgynghori Cymunedol ac roedd wedi hysbysebu'r ymgynghoriad yn y ffordd a ragnodwyd.
4	Tudalen 7	Os bydd angen, efallai byddwn hefyd yn ymgynghori'n ychwanegol â'r cyhoedd mewn ffordd wedi'i thargedu ynghylch materion penodol. Byddai ymgynghori o'r fath hefyd yn cael ei hysbysebu tua phedair wythnos ymlaen llaw.	Roedd Horizon wedi cynnal rhywfaint o ymgynghori wedi'i dargedu yn ystod y broses cyn ymgeisio. Roedd y rhain ar wahân ac yn ychwanegol at yr 'Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio' a.24 ffurfiol. Roedd y rhain yn cynnwys:	<b>Nac oedd.</b>  Er bod Horizon wedi cynnal rhai ymgynghoriadau wedi'u targedu yn ystod camau cynnar y prosiect, nid oedden nhw wedi cynnal ymgynghoriadau wedi'u

Croeso i chi ddellio gyda'r Cyngor yn Gymraeg neu'n Saesneg. Cewch yr un safon o wasanaeth yn y ddwy iaith.  
You are welcome to deal with the Council in Welsh or English. You will receive the same standard of service in both languages.

			<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymgynghoriad Paratoi'r Safle a'r A5025 (Mai 2016);</li> <li>• Ymgynghoriad ynghylch y gwelliannau i briffordd yr A5025 (Awst 2017);</li> <li>• Ymgynghoriad ynghylch y Cais Paratoi a Chlirio'r Safle (Hydref 2016);</li> <li>• Ymgynghoriad Cyhoeddus Anffurfiol (Ionawr 2016);</li> <li>• Ymgynghoriad ar Dir Ychwanegol (Ionawr 2018).</li> </ul> <p>Er gwaethaf yr ymgynghoriadau anffurfiol uchod, ac ystyried y diffyg gwybodaeth yn PAC3 (yn enwedig o ran campws y safle), byddai Cyngor Sir Ynys Môn wedi disgwyl i Horizon gynnal ymgynghoriad(au) wedi'u targedu, yn enwedig ynghylch campws y safle. Nid ydy'r cyhoedd wedi cael y cyfle i gyflwyno sylwadau ystyrion ynghylch campws y safle cyn cyflwyno'r cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu. O ganlyniad, mae Cyngor Sir Ynys Môn yn credu bod ymgynghoriad PAC3 yn ddiffygiol yn hyn o beth, gan nad oedd wedi darparu digon o fanylion ar y newid sylfaenol hwn i gynigion y prosiect ers PAC2.</p>	<p>targedu ar agweddau allweddol o'r prosiect (roedd eu manylion ar goll o PAC3).</p> <p>Cyn y newidiadau deddfwriaethol a gyflwynwyd drwy Ddeddf Cymru 2017, Cyngor Sir Ynys Môn fyddai wedi bod yr Awdurdod a fyddai'n penderfynu ynghylch y Datblygiadau Cysylltiedig. Byddai Cyngor Sir Ynys Môn wedi disgwyl llawer iawn mwy o ymgysylltu ac ymgynghori cyn ymgeisio nag a gynhaliwyd gan Horizon hyd yma (yn enwedig ynghylch y newidiadau ers PAC2). Nid yw'r ffaith y penderfynir rwan ar yr elfennau hyn o'r prosiect fel rhan o'r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu yn golygu nad oes angen y lefel leol o ymgynghori ac ymgysylltu cyn cyflwyno'r cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu.</p>
--	--	--	---	--

5	Tudalen 7	<p>Byddwn hefyd yn parhau i ymgysylltu'n rheolaidd â'r gymuned drwy gymorthfeydd agored, sy'n cael eu hysbysebu'n eang ymlaen llaw mewn papurau newydd lleol ac ar ein gwefan <a href="http://www.horizonnuclearpower.com/ymgyngoriad">www.horizonnuclearpower.com/ymgyngoriad</a>, a Grŵp Cyswllt Prosiect Wylfa Newydd. Bydd cylchlythyrau am gynnydd Prosiect Wylfa Newydd yn parhau i gael eu dosbarthu'n rheolaidd i bob tŷ ar Ynys Môn.</p>	<p>Mae Horizon wedi cynnal cymorthfeydd agored misol dros nifer o flynyddoedd. Mae'r rhain yn cael eu hysbysebu'n lleol (drwy bosteri), mewn papurau newydd lleol ac ar ei wefan. Mae Grŵp Cyswllt y Prosiect hefyd yn ffordd effeithiol o gyfathrebu â phobl a busnesau lleol. Mae Horizon hefyd yn cynhyrchu cylchlythyr chwarterol sy'n cael ei ddanfôn i oddeutu 33,000 o gartrefi.</p>	<p><b>Oedd.</b></p> <p>Mae Horizon wedi ymgysylltu â'r gymuned yn rheolaidd yn unol â'r ymrwymiad yn ei Ddatganiad o Ymgynghori Cymunedol.</p>
6	Ffigur 4 (Tudalen 7)	<p>Ffigur yn dangos 'Ymgynghoriadau wedi'u Targedu' rhwng pob un o'r Ymgynghoriadau PAC ffurfiol.</p>	<p>Er bod Horizon wedi cynnal ymgynghoriadau wedi'u targedu rhwng PAC1 a PAC2, ni chynhaliwyd ymgynghoriad wedi'i dargedu ar ôl PAC3, sy'n siomedig dros ben. Ac ystyried y diffyg manylion yn PAC3 (yn enwedig ynghylch campws y safle), byddai Cyngor Sir Ynys Môn wedi disgwyl i Horizon gynnal rhai ymgynghoriadau wedi'u targedu cyn cyflwyno ei gais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu.</p>	<p><b>Nac oedd.</b></p> <p>Fel y rheswm a roddir yn rhes 4 uchod.</p>
7	Tudalen 8 – <b>Ble</b> rydyn ni'n ymgynghori ac â <b>phwy?</b>	<p>Bydd ein proses ymgynghori'n cael ei chynnal dros dri 'pharth', sef:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Parth A</b> – Ynys Môn, sef yr ardal sydd fwyaf tebyg o weld effeithiau uniongyrchol Prosiect Wylfa Newydd;</li> </ul>	<p>Cytunodd Cyngor Sir Ynys Môn ar y tri pharth gyda Horizon cyn cyflwyno'r Datganiad o Ymgynghori Cymunedol .</p>	<p><b>Oedd.</b></p> <p>Roedd yr ymgynghori / ymgysylltu wedi cael ei wneud yn unol â'r</p>

		<ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Parth B</b> – ardal Gwynedd (Arfon), sy'n cynnwys Bangor a Chaernarfon; a</li> <li>• <b>Parth C</b> – Gogledd Orllewin Cymru, fel y diffinnir yr ardal gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys canolfannau allweddol o ran poblogaeth a busnesau, fel Llandudno a Phorthmadog ac ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.</li> </ul> <p>Rydyn ni'n cydnabod y bydd gan drigolion, cymunedau, sefydliadau a rhanddeiliaid eraill ofynion gwahanol o ran gwybodaeth, a bydd ein proses ymgynghori yn adlewyrchu hyn. Er enghraifft, ym Mharth A, rydyn ni'n disgwyl y bydd llawer o'r trafodaethau'n canolbwyntio ar effeithiau uniongyrchol y gwaith adeiladu a gweithredu, ond ym Mharth C, efallai y bydd mwy o ddiddordeb mewn materion economaidd a chymdeithasol ehangach, fel cyfleoedd cyflogi.</p>	<p>Mae'r ymgysylltu ym Mharth A wedi cael ei wneud mewn ffordd effeithiol ac mae lefel gyffredinol yr wybodaeth sydd wedi cael ei darparu am y prosiect wedi bod yn foddhaol.</p> <p>Efallai y bydd Cynghorau Gwynedd a Chonwy yn dymuno gwneud eu sylwadau eu hunain ynghylch yr ymgynghori ym Mharthau B ac C; nid ydy Cyngor Sir Ynys Môn wedi cael mantais gweld sylwadau o'r fath wrth baratoi'r ymateb yma.</p> <p>Ymgynghorwyd â Chynghorau Gwynedd a Chonwy drwy gydol y broses cyn ymgeisio. Cafodd dogfennau copi eu rhoi mewn llyfrgelloedd cyhoeddus yng Ngwynedd a Chonwy a rhoddwyd hysbysiadau mewn papurau newydd a oedd yn cael eu dosbarthu yn Ardal Gogledd Cymru. Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn ystyried felly y dilynwyd y dull gweithredu yn y Datganiad o Ymgynghori Cymunedol .</p>	Datganiad o Ymgynghori Cymunedol .
8	Tudalen 8	Yn ogystal ag ymgynghori â'r cyhoedd yn ehangach a'u cynrychiolwyr, byddwn ni hefyd yn gweithio gyda grwpiau penodol, busnesau lleol, cynghorau cymuned, cynghorau sir a grwpiau a mudiadau cymunedol eraill i	Mae Horizon wedi ymgysylltu ag amrywiaeth eang o grwpiau cymunedol, rhanddeiliaid a chynrychiolwyr o'r sector cyhoeddus.	<b>Oedd.</b>

Croeso i chi ddelio gyda'r Cyngor yn Gymraeg neu'n Saesneg. Cewch yr un safon o wasanaeth yn y ddwy iaith.  
You are welcome to deal with the Council in Welsh or English. You will receive the same standard of service in both languages.

		gynyddu'r ymwybyddiaeth o'r broses ymgynghori.		
9	Tudalen 8	Er mwyn helpu i sicrhau bod yr ymgynghoriad o fewn cyrraedd cynifer o bobl â phosibl, rydyn ni wedi datblygu Strategaeth Cynyddu Cynhwysiant. Mae copi o hon wedi cael ei lwytho i fyny ar ein gwefan ac mae copïau caled ar gael ar gais. Nod hon ydy sicrhau ein bod ni'n gweithio gyda mudiadau ar draws y gymuned i sicrhau bod pobl yn cael cyfleoedd rhesymol i gael gafael ar wybodaeth am Brosiect Wylfa Newydd ac ymateb i'r ymgynghoriad os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny.	Mae Horizon wedi datblygu 'Strategaeth Cynyddu Cynhwysiant' er mwyn sicrhau bod yr ymgynghoriad mor hwylus â phosibl. Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi darparu sylwadau a mewnbwn at y ddogfen hon ac mae'n fodlon bod Horizon wedi cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod yr ymgynghori a'r ymgysylltu mor gynhwysol â phosibl.	<b>Oedd.</b>
10	Tudalen 8	Yn benodol, byddwn ni'n parhau i weithio gyda Chyngor Sir Ynys Môn i ddefnyddio arferion ymgynghori da sy'n berthnasol yn lleol, fel y rheini sydd wedi cael eu datblygu drwy'r prosiect Llais Cymunedol, a chefnogi gwaith Swyddogion Cynnwys y Gymuned.	Mae Horizon wedi ariannu dan Swyddog Cynnwys y Gymuned (un yng Nghyngor Sir Ynys Môn a'r llall yn Horizon) sydd wedi bod yn effeithiol o ran gweithio gyda'r gymuned i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth pobl o'r prosiect. Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn credu bod hyn yn ymarfer da y gellid ei ailadrodd ar gyfer Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol eraill.	<b>Oedd.</b>
11	Tudalen 8	Byddwn ni'n gweithio gyda sefydliadau ar draws y gymuned i ddarparu gwybodaeth i bobl am ein Prosiect Wylfa Newydd a sicrhau eu bod nhw'n cael cyfleoedd priodol i ymateb. Bydd hyn yn rhan annatod o'n holl weithgarwch ymgynghori.	Fel uchod.	<b>Oedd.</b>
12	Tudalen 9 – <b>Sut</b> byddwn ni'n ymgynghori?	Bydd Cam Tri'r ymgynghoriad yn canolbwyntio i raddau helaeth ar y newidiadau i'r Prosiect	Er bod Cyngor Sir Ynys Môn yn anghytuno â chwmpas a hyd yr ymgynghoriad (fel yr amlinellwyd	<b>Oedd.</b>

Croeso i chi ddellio gyda'r Cyngor yn Gymraeg neu'n Saesneg. Cewch yr un safon o wasanaeth yn y ddwy iaith.  
You are welcome to deal with the Council in Welsh or English. You will receive the same standard of service in both languages.

		sydd wedi codi ers yr ymgynghoriadau blaenorol. Bydd yn para am <b>30 diwrnod</b> .	yn ymateb Cyngor Sir Ynys Môn i'r Datganiad o Ymgynghori Cymunedol), roedd Horizon wedi ymgynghori yn unol â'r Datganiad o Ymgynghori Cymunedol.	
13	Tudalen 9	Yn yr un modd â Cham Un a Cham Dau, bydd ein hymgynghoriad Cam Tri yn cael ei strwythuro o amgylch cyfres o ddigwyddiadau arddangos bach a sesiynau galw draw sy'n rhoi cyfle i bobl gwrrdd â'n tîm, gofyn cwestiynau a rhoi adborth. Bydd y digwyddiadau hyn yn cael eu cynnal ar draws Parthau A, B ac C a byddan nhw'n cael eu targedu at y rhai y mae disgwyl y bydd Prosiect Wylfa Newydd yn effeithio arnyn nhw fwyaf. Bydd yr ymgynghoriadau'n cynnwys trosolwg, crynodeb a deunyddiau arddangos yn Gymraeg a Saesneg, a byddan nhw wedi cael eu hysgrifennu mewn iaith glir a hawdd ei darllen.	Roedd ymgynghoriad Horizon wedi cael ei strwythuro o amgylch nifer o arddangosfeydd bach, digwyddiadau a sesiynau galw heibio.  Er bod Cyngor Sir Ynys Môn wedi anghytuno â chwmpas a hyd yr ymgynghoriad, roedd Horizon wedi ymgynghori yn unol â'i Ddatganiad o Ymgynghori Cymunedol.	<b>Oedd.</b>
14	Tudalen 9	Byddwn yn ceisio ymgysylltu'n rhagweithiol â phartïon sydd â diddordeb drwy fynd i ddigwyddiadau lleol ee marchnadoedd a chynnal nifer o ddigwyddiadau achlysurol mewn lleoliadau lle rydyn ni'n gwybod y bydd nifer mawr o bobl. Bydd hyn yn rhoi cyfleoedd i bobl na fydden nhw fel arall yn ymgysylltu â ni i gael rhagor o wybodaeth am y Prosiect a rhoi adborth. Bydd aelodau'r gymuned sydd â diddordeb ym Mhrosiect Wylfa Newydd hefyd yn gallu cael gafael ar wybodaeth mewn llyfrgelloedd lleol ac adeiladau dinesig eraill, er na fydd staff yn yr arddangosfeydd hyn oni nodir fel arall.	Mae Horizon wedi dangos ei ymrwymiad i ymgysylltu â'r gymuned drwy fynd i ddigwyddiadau fel Sioe Môn. Mae Horizon wedi bod yn mynychu Sioe Môn ers nifer o flynyddoedd.  Mae gwybodaeth hefyd wedi cael ei dosbarthu mewn llyfrgelloedd cyhoeddus fel y nodwyd.	<b>Oedd.</b>

15		Bydd unrhyw ymgynghoriad ychwanegol wedi'i dargedu sy'n canolbwyntio ar faterion penodol ar ôl ymgynghoriad Cam Tri yn seiliedig i raddau helaeth ar ddogfennau crynodeb byr er efallai y bydd angen cynnal ambell i gyfarfod cymunedol.	Ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriadau wedi'u targedu ar ôl PAC3.	<b>Nac oedd.</b>
16		Bydd y deunyddiau annhechnegol a fydd yn cael eu cynhyrchu ar gyfer yr holl weithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu'n ddwyieithog. Bydd siaradwyr Cymraeg ar gael yn y digwyddiadau lle bydd staff ac rydyn ni'n croesawu adborth i'r ymgynghoriad yn Gymraeg ac yn Saesneg.	Roedd yr holl ddeunyddiau a gynhyrchwyd yn ddwyieithog ac roedd gan Horizon staff a oedd yn siarad Cymraeg ym mhob digwyddiad.	<b>Oedd.</b>
17	Tudalen 9 – <b>Sut</b> byddwn ni'n hysbysebu'r ymgynghoriad?	Byddwn yn defnyddio sawl ffordd o roi gwybod am y broses ymgynghori a sicrhau bod y gymuned yn gallu cymryd rhan. Byddwn yn ystyried pob math o gyfryngau addas ar gyfer cyfathrebu a byddwn yn gweithio gyda grwpiau cynrychioladol, gan gynnwys Tîm Cyfathrebu Cyngor Sir Ynys Môn i sicrhau ein bod mor effeithiol â phosibl. Bydd y rhain o leiaf yn cynnwys: cylchlythyrau, hysbysebion yn y wasg, datganiadau i'r wasg, posteri, Grŵp Cyswllt Prosiect Wylfa Newydd, grwpiau a mudiadau, gwefan, cyfryngau cymdeithasol a chyfryngau eraill (ee radio lleol).	Mae Horizon wedi cyfathrebu fel y nodwyd.	<b>Oedd.</b>